

NOSC 2026 Rhif 137

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda
Cynon Taf i Gyffordd 49 (Pont
Abraham), Sir Gaerfyrddin)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2026

Gwnaed 17 Gorffennaf 2026

Yn dod i rym 27 Gorffennaf 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Gorffennaf 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

NWSI 2026 No. 137

ROAD TRAFFIC

The M4 Motorway (Junction 34
(Miskin), Rhondda Cynon Taf to
Junction 49 (Pont Abraham),
Carmarthenshire) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2026

Made 17 July 2026

Coming into force 27 July 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be prohibited because of works proposed on or near the motorway.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf to Junction 49 (Pont Abraham), Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026 and this Order comes into force on 27 July 2026.

Interpretation

2. In this Order—

- (1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 27 Gorffennaf 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r cerbyttffyrdd tua’r gorllewin a thua’r dwyrain o draffordd yr M4 wrth a rhwng Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Chyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr holl ffyrdd ymadael ac ymuno tua’r gorllewin a thua’r dwyrain wrth y cyffyrdd hyn a rhyngddynt.

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Gorffennaf 2026

Gareth Day
Pennaeth Gweithrediadau
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales motorway;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 27 July 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the westbound and eastbound carriageways of the motorway at and between Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf and Junction 49 (Pont Abraham), Carmarthenshire, including all westbound and eastbound exit and entry slip roads at and between these junctions.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated

17 July 2026

Gareth Day
Head of Operations
Welsh Government